

CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER DYFRGWN

Cyflwyniad

Mae'r dyfrgi (*Lutra lutra*) yn un o gigysyddion mwyaf Prydain. Anifail y nos yw'r dyfrgi gan mwyaf ac mae'n byw ar hyd afonydd ond bydd hefyd yn defnyddio camlesi, ffosydd, corsydd, llynnoedd ac ardaloedd cyfagos o brysgwydd a gwlyptir. Mae hefyd yn defnyddio morydau ac ardaloedd arfordirol ond mae angen mynediad at ddŵr croyw ar y dyfrgi i gadw'i ffwr mewn cyflwr da. Mae pa mor eang yw ei diriogaeth yn dibynnu ar ansawdd y cynefin a'r cyflenwad bwyd, a gall fod hyd at 40 km ar afonydd.



Mae dyfrgwn yn ffafrio afonydd sydd â gorchudd da ar hyd eu glannau; mae prysgwydd fel y ddraenen wen, y ddraenen ddu a mieri yn darparu safleoedd gorffwys rhagorol yn ystod y dydd. Mae gwelyau cyrs a hesg hefyd yn bwysig fel manau gorffwys, ac fel safleoedd bwydo a bridio. Mae systemau gwreiddiau coed aeddfed fel ynn, derw a masarn wrth ymyl afonydd yn darparu gwagleoedd sy'n addas i'w defnyddio fel gwâl. Caiff coetiroedd collddail eu defnyddio'n aml gan ddyfrgwn, hyd yn oed pan fyddant wedi'u lleoli beth pellter o'r afon, ond fod modd cyrraedd yr afon ar hyd nentydd bach neu ffosydd. Mae ffen coed gwern a helyg yn neilltuol o bwysig. Mae llynnoedd, pyllau dŵr, ystumllynnoedd ac ardaloedd gwlyptir eraill yn arbennig o bwysig i ddyfrgwn sy'n bridio, gan eu bod yn cynnal poblogaethau o amffibiaid, sy'n ffynhonnell bwysig o fwyd ar yr adeg o'r flwyddyn pan gaiff y rhan fwyaf o ddyfrgwn eu cenawon.

Mae eu diet yn amrywiol, yn cynnwys pysgod, amffibiaid, cramenogion, adar a mamaliaid bach.

Yng Nghymru mae yna boblogaethau cryf o ddyfrgwn yn y De-orllewin a'r Canolbarth, ond maent yn dal yn wan yn y De-ddwyrain a'r Gogledd-orllewin. Câl dyfrgwn eu hystyried yn gyffredin ar draws y Deyrnas Unedig tan y 1950au, pryd y gwelwyd dirywiad cyflym a barodd tan y 1970au. Mae hyn wedi cael ei briodoli'n bennaf i ddefnyddio plaleiddiaid organoclorin, ac fe'i dwysawyd gan hela a darnio cynefinoedd. Mae arolygon diweddar wedi dangos adferiad sylweddol yn nifer a dosbarthiad dyfrgwn yng Nghymru a Lloegr. Mewn rhai rhannau o Gymru a de-orllewin Lloegr, efallai fod y nifer o ddyfrgwn ar hyd afonydd yn agos at y capasiti bridio erbyn hyn. Heddiw mae damweiniau ffordd yn un o'r prif achosion marwolaeth ac efallai fod poblogaethau'n cael eu cyfyngu gan ddiffyg safleoedd bridio addas na therfir arnynt a phrinder rhywogaethau prae, yn enwedig llysywod dŵr croyw.

Mae dyfrgwn wedi'u gwasgaru'n eang ar hyd a lled y sir, ac mae'r ardal hon yn gadarnle i'r rhywogaeth. Gwyddom fod dyfrgwn yn bresennol ar holl afonydd Sir Gaerfyrddin – yn cynnwys dalgylchoedd afonydd Teifi, Tywi, Taf, Lluchwr a Gwendraeth. Mae'r safleoedd bridio'n tueddu i fod wedi'u lleoli ar y llednentydd, neu ar ddarnau o gynefin heb fod yn union wrth ymyl afon megis prysgwydd, hen ystumllynnoedd ac ati. Mae dalgylchoedd blaenddw'r arfordir a morydau yn darparu llwybrau teithio i ddyfrgwn ifanc sy'n gwasgaru allan i ddalgylchoedd afon

cyfagos. Mae dyfrgwn wedi cael eu gweld ar afon Tywi o fewn terfynau tref Caerfyrddin, a hefyd ar afon Lliedi yn Llanelli.

Mae'n ofyniad gan yr awdurdod cynllunio lleol, fel rhan o'i gyfrifoldebau statudol/polisi, fod arolygon yn cael eu cynnal fel sail i gynllunio/penderfynu ar unrhyw gynllun/prosiect sydd â'r potensial i effeithio ar ddyfrgwn.

Datganiad gweledigaeth ac amcanion

Er mwyn cynnal dyfrgwn yn y tymor hir mae angen ymdriniaeth ar raddfa'r dirwedd, gan gynnwys llawer o bartneriaid gwahanol. Y weledigaeth o ran dyfrgwn yw sir sydd â digon o gynefin addas i sicrhau eu bod yn gallu symud yn rhwydd ledled yr ardal y maent wedi'i phoblogi, gyda digon o safleoedd bridio a gostyngiad yn y nifer o farwolaethau ffordd yn y sir. Byddai unrhyw gamau a gymerir yn ceisio cyflawni un neu ragor o'r amcanion isod:

OTT1 Cymryd camau, yn cynnwys rheoli cynefin ar lannau afonydd, i helpu i gynyddu maint a dosbarthiad y boblogaeth o ddyfrgwn

OTT2 Casglu data am ddosbarthiad a statws dyfrgwn yn Sir Gaerfyrddin

OTT3 Codi ymwybyddiaeth o ddyfrgwn yn Sir Gaerfyrddin a darparu cyngor ar reoli cynefin

Crynodeb o'r camau sydd wedi'u cyflawni gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk) neu ewch i'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth genedlaethol - <http://ukbars.defra.gov.uk>:

2010–12

- Lluniwyd cynlluniau lliniaru ar gyfer 6 man lle ceir llawer o ddamweiniau traffig yn y sir – Cyngor Sir Caerfyrddin OTT1
- Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd – gwâl dyfrgwn wedi'i gosod ar un safle yn nyffryn Tywi OTT1
- Silff dyfrgwn wedi'i gosod mewn cwlfer ar un safle drwy waith cynnal ffyrdd - Cyngor Sir Caerfyrddin OTT1
- Gwâl dyfrgwn wedi'i gosod yng Nghydsweli – Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar OTT1
- Parc Dinefwr - gwâl dyfrgwn wedi'i gosod – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol OTT1
- Arolwg dyfrgwn o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru – yr Ardd OTT2
- Mynd â dyfrgwn a laddwyd mewn damweiniau ffordd at Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn i Brifysgol Caerdydd wneud awtopsi – Cyngor Sir Caerfyrddin/Cyfoeth Naturiol Cymru OTT2
- Gofyn cynnal arolwg dyfrwng pan fydd cynefin addas yn bodoli o fewn ceisiadau cynllunio – Cyngor Sir Caerfyrddin OTT4

2013

- Gwâl i ddwrgwn wedi cael ei chreu fel rhan o gynllun Tirwedd a Bioamrywiaeth y Cynllun Datblygu Gwledig OTT1

2015

- Hyfforddiant ynghylch dyfrgwn i swyddogion CSC – CSC OTT3

- Gwaith ymchwilio ym Mhont y Comisiynydd, Cydweli, parthed lliniaru ar gyfer dyfrgwn OTT1
- Gofyn cynnal arolygon dyfrgwn pan fo cynefin addas yn digwydd mewn ceisiadau cynllunio - CSC OTT1
- Cyflwyno dyfrgwn a fu farw ar y ffyrdd i CNC er mwyn i Brifysgol Caerdydd gynnal awtopsi - CSC/CNC OTT2

Camau arfaethedig i'r dyfodol

- Hyfforddiant ar y safle i swyddogion CSC ynghylch dyfrgwn a phontydd/cwlfertau – CSC OTT3
- Hyrwyddo rhoi gwybod am ddyfrgwn wedi'u lladd mewn damweiniau ffordd – Cyfoeth Naturiol Cymru/Cyngor Sir Caerfyrddin OTT2


Dolenni defnyddiol:

- BBC Nature wildlife - [dyfrgi](#)
- Y Gymdeithas Famaliaid - [dyfrgi](#)
- Yr Ymddiriedolaeth Natur – [dyfrgi](#)

Deddfwriaeth

Mae'r dyfrgi'n cael ei amddiffyn yn llym o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Caiff dal dyfrgwn, tarfu arnynt, eu hanafu a'u lladd ei wahardd, felly hefyd ddifrodi neu ddinistrio eu safleoedd bridio a'u manau gorffwys (nodwch mai crynodeb wedi'i symleiddio o'r ddeddfwriaeth yw hwn).

Mae'r dyfrgi yn rhan o hen chwedl Gymraeg siamaniaidd. Gadawodd y ddewines Ceridwen y Gwion ifanc i warchod ei phair, ond blasodd y rhin drwy ddamwain a hynny'n roi iddo ddealltwriaeth o bopeth. Trodd ei hun yn ysgyfarnog er mwyn dianc rhag llid Ceridwen, ond aeth i'w erlid yn rhith miliast. Pan blymiodd i'r afon fel eog, trodd Ceridwen yn ddyfrgi i ddal i'w erlid. Maes o law cafodd Gwion ei aileni fel y bardd o fri, Taliesin.



Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Sir Gaerfyrddin
 Carmarthenshire **Biodiversity** Partnership
 www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk

Mae [Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin](#) yn cynnwys y sefydliadau canlynol:
[Cyngor Sir Caerfyrddin](#), [Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru](#), [Cyfoeth Naturiol Cymru](#), [Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar](#), [Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir](#), [Clwb Adar Sir Gaerfyrddin](#), [Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru](#), [Gwarchod Glöynnod Byw](#), [Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin](#), [Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#), [Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain](#), [Naturiaethwyr Llanelli](#), [Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod](#), [Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru](#), [Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid](#)